

COFNOD O GYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG PWNC A CHRAFFU 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 18 GORFFENNAF 2024 AM 11:00

Yn bresennol

Cynghorydd – Cadeirydd

H J David

D M Hughes

A J Williams

Yn Bresennol yn Rhithiol

J P D Blundell

J Llewellyn-Hopkins

T Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, H Griffiths ac I M Spiller

Swyddogion:

Nicola Echanis
Robin Davies

Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr Grŵp, Cymorth Busnes

Rachel Keepins
Lucy Beard

Rheolwr Gwasanaethau Democraidd
Swyddog Craffu

Gwahoddedigion / Cynrychiolwyr Cofrestredig

Helen Jones
Adele Thomas

Pennaeth Ysgol Gyfun Maesteg
Pennaeth Ysgol Gynradd Notais

Datganiadau o Fuddiant

Cynghorydd Alex Ulberini-Williams – Rhagfarnol – Eitem 4 – Ymgynghoriad Teithio Dysgwyr

Cynghorydd Amanda Williams – Personol – Eitem 4 yn cynnwys Ysgol Brynteg lle mae'r Cynghorydd yn Llywodraethwr AALI ac mae ei phlant yn ddisgyblion yno. Yn ogystal, cwblhawyd yr ymgynghoriad fel Llywodraethwr.

Cynghorydd Della Hughes – Personol – Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr. Y Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins - Personol - Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cynffig.

Cynghorydd Jon-Paul Blundell – Rhagfarnol – Eitem 4 fel y cyn aelod o'r Cabinet a oedd yn un o'r awduron ac a lofnododd y gwaith yn sgil hynny.

Cynghorydd Tim Thomas – Personol – Llywodraethwr Ysgol.

47. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|------------------------|---|
| Penderfyniad | <u>PENDERFYNWYD</u> : Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 1 a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2024 |

48. Canlyniad Ymgynghoriad Teithio Dysgwyr

| | |
|--------------|---|
| Penderfyniad | <p><u>PENDERFYNWYD</u>: Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth fanwl a gafwyd gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor:</p> <p>Argymhellion Cyffredinol:</p> <p>Argymhelliad 1 Amlygodd y Pwyllgor fod gan bob Cynghorydd, fel Rhieni Corfforaethol, ddyletswydd dros Blant sydd wedi Profi Gofal a thros bobl ifanc, gan argymell rhoi ystyriaeth i sut y gallent gael eu heffeithio gan gynigion yr HTST gael ei archwilio fel rhan o benderfyniad y Cabinet.</p> <p>Argymhelliad 2 O'r cyfarfod cafwyd tystiolaeth y gallai'r cynigion effeithio ar bresenoldeb a llwyddiant addysgiadol disgyblion, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Argymhellodd yr aelodau, os yw'n bosibl, cyn penderfyniad y Cabinet, y dylid ceisio gwybodaeth a dadansoddiad gan Awdurdodau Lleol eraill i ddeall pa mor ddwys fyddai'r effaith hon er mwyn bwydo penderfyniad y Cabinet.</p> <p>Argymhelliad 3 Amlygodd y Cabinet bwysigrwydd cyfathrebu gyda rhieni yn ogystal â phlant a phobl ifanc ynghylch unrhyw newidiadau posib neu ffyrdd y gallent gael eu heffeithio, gan argymell y dylai hyn fod yn flaenoriaeth yn dilyn pob penderfyniad, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cychwyn cyntaf.</p> <p>Cynnig 1</p> <p>Argymhelliad 4 Amlygodd y Cabinet amryw o bryderon ynghylch rhai o'r llwybrau i'r ysgol sydd ar hyn o bryd yn cael eu hystyried fel rhai diogel, er enghraifft rhai ardaloedd heb groesfannau i gerddwyr, rhai llwybrau ddim yn cael eu cynnal a dim digon o olau arnynt yn ystod nosweithiau tywyll y gaeaf. Argymhellodd y Pwyllgor gan hynny:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y dylid cynnal arolwg ar bob llwybr diogel i'r ysgol, bob tymor;• Y dylid cael trefn lle gall rhieni gynnig adborth ar unrhyw faterion yn ymwneud â'r llwybrau er mwyn datrys unrhyw broblem yn gyflym. |
|--------------|---|

Argymhelliad 5

Trafododd yr aelodau y mater ynghylch plant a phobl ifanc yn gorfod cerdded i'r ysgol, hyd at 3 milltir o bosib dan y cynigion newydd, mewn tywydd gwael, ac yna rhai disgyblion o bosib yn wlyb trwy'r dydd wrth orfod croesi safle'r ysgol yn barhaus mewn tywydd gwael i fynd i'w dosbarthiadau. Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch hyn yn effeithio ar bresenoldeb disgyblion ar ddyddiau pan fydd y tywydd yn wael. Cododd Aelodau bryderon hefyd ynghylch adroddiadau bod disgyblion, yn achlysurol, yn gorfod disgwyl yn hir i fysiau dan gontract BCBC eu casglu o'r ysgol, sy'n golygu bod disgyblion ac athrawon yn gorfod sefyll y tu allan mewn tywydd difrifol.

- a. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Awdurdod Lleol gydweithio'n agos ag ysgolion ac athrawon i sicrhau bod darpariaeth yn ei lle i ddisgyblion un ai sychu eu dillad neu efallai newid i ddillad sych wrth iddynt gyrraedd yr ysgol.
- b. Felly hefyd, bod darpariaeth ar gael i gadw disgyblion yn ddiogel ac yn gynnes ar ddiwedd diwrnod ysgol os bydd angen iddynt ddisgwyl am fws cyhoeddus neu fws dan gontract BCBC i'w cludo gartref.
- c. Cafwyd argymhelliad pellach gan yr Aelodau y dylai'r Awdurdod drafod gyda chontractwyr ynghylch yr amser maent yn cyrraedd yr ysgol i gasglu disgyblion er mwyn lleihau'r amser mae disgyblion ac athrawon yn gorfod disgwyl.

Cynigion 3 a 4

Sylw

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod mai strategaeth yr Awdurdod Lleol yw tyfu addysg cyfrwng Cymraeg a'r nifer o lefydd, cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch capasiti ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag Ysgolion Ffydd i ymdopi gyda'r cynnydd posib mewn ceisiadau i fynychu'r ysgolion hyn, o ystyried y byddai eu darpariaeth teithio ar gyfer meithrinffeydd ac ôl-16 yn cael eu diogelu dan y cynigion hyn.

Cynnig 4

Argymhelliad 6

Os bydd y cynnig hwn yn cael ei dderbyn, amlygodd yr Aelodau y byddai cynnydd yn sicr yn y ddibyniaeth ar fysiau cyhoeddus gan ddisgyblion ôl-16 er mwyn iddynt allu cyrraedd yr ysgol neu'r coleg. Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor felly, cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar ôl-16; y dylai'r Awdurdod Lleol ymchwilio i weld a oes yna unrhyw fysiau cyhoeddus sy'n mynd heibio neu'n agos i bob ysgol sy'n cynnig addysg ôl-16, ac yn yr ysgolion lle nad yw hynny'n cael ei gynnig, i ddeall yn llawn effaith bosib disgyblion felly yn optio allan o addysg ôl-16. Roedd cryn bryder ymysg y Pwyllgor ynghylch effaith bosib y newidiadau hyn ar ddisgyblion ôl-16 sy'n byw yn ardaloedd

Llynfi, a Chymoedd Ogwr a Garw, ac y byddai tynnu'r gwasanaeth teithio yn golygu na fyddai addysg ôl-16 ar gael iddynt o bosib.

Argymhelliad 7

Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor y dylai'r Awdurdod Lleol gydweithio gyda chwmnïau bysiau lleol cyn gynted â phosib i ystyried sut allent helpu gyda'r ddarpariaeth deithio ôl-16 i ysgolion a cholegau ar draws y Fwrdeistref. Ymhellach, y dylai'r Awdurdod Lleol archwilio unrhyw gyfleoedd gyda'r cwmnïau bysiau sydd dan gcontract ar hyn o bryd i weld a oes yna unrhyw beth y gallent ei ddarparu o ran gwasanaeth bws lleol a fyddai'n helpu disgyblion i allu cyrraedd eu hysgolion a'u colegau. Gofynnodd yr Aelodau hefyd i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod pob llwybr bws a'r amserlenni'n cael eu hanfon at ddisgyblion ôl-16 sydd wedi cael eu heffeithio gan y newid hwn.

Argymhelliad 8

Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor y dylai'r Awdurdod Lleol holi Colegau Penybont a Phencoed i weld a fyddent yn fodlon cefnogi eu dysgwyr drwy ddarparu pasys bws am ddim i ddisgyblion cymwys, sy'n debyg i'r cynlluniau a ddarperir mewn colegau mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

Argymhelliad 9

Codwyd cwestiynau gan Aelodau ynghylch a fyddai'r newidiadau a gynigir i deithio ôl-16 yn cydfynd ag ymrwmiadau'r Awdurdod Lleol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth gydnabod bod yr adroddiad yn crynhoi'r goblygiadau ynghylch y pum ffordd o weithio dan y ddeddf, barn y Pwyllgor oedd nad yw'r ymateb yn amlygu'r effaith ar blant nad ydynt bellach yn gallu mynychu addysg ôl-16. Gan hynny, cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth lawn i hyn ac y dylai'r effaith dan y Ddeddf fod yn fwy eglur.

Argymhelliad 10

Codwyd pryderon gan y Pwyllgor ynghylch disgyblion bregus posib a fyddai dan anfantais yn sgil y cynigion hyn, fel y rhai a fyddai'n gallu fforddio pas bws i gael mynediad at addysg ôl-16, gan felly fod mewn mwy o berygl o ddod yn NEET. Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i hyn, a'r potensial o gynnal cynllun gyda meini prawf ar gyfer disgyblion sy'n cael eu hystyried fel rhai bregus.

Cynnig 5

Argymhelliad 11

Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor y dylid cael eglurhad ynghylch a yw lwfans milltiroedd o 45 ceiniog y filltir yn ddigon i ddigolledu unrhyw gostau ychwanegol y byddai rhieni/gofalwyr yn gorfod eu hysgwyddo, fel costau yswiriant petai hyn yn cael ei ystyried yn filltiroedd lwfans busnes. Felly hefyd, dylid ceisio mwy o eglurhad ynghylch a fyddai'r lwfans hwn yn creu unrhyw oblygiadau treth neu fudd-dal i rieni/gofalwyr.

Monitro Effaith

| | |
|-------------------------------|--|
| | <p>Argymhelliad 12</p> <p>Wrth ystyried y cynigion, roedd Aelod y Cabinet yn cydnabod, petai'r cynigion yn cael eu derbyn y byddai hyn yn arwain yn sicr at rai problemau unigol ac y byddai hyn yn anochel yn anffodus wrth geisio lleihau rhai ardaloedd i'r isafswm statudol. Er mwyn ceisio ymateb i'r materion hyn, adroddodd y byddai'n ceisio sefydlu a chadeirio grŵp monitro a fyddai'n ystyried effaith unrhyw newidiadau i HTST ac ymateb iddynt yn briodol. Eglurodd y byddai'r grŵp hwn yn ymgysylltu gyda Swyddogion ar draws y gwahanol Gyfarwyddiaethau yn ôl yr angen er mwyn gweld sut y gellir datrys y problemau.</p> <p>a) Roedd y Pwyllgor yn croesawu sefydlu'r Grŵp hwn gan argymhell y dylai edrych yn benodol ar ystyried rhai o'r elfennau a nodwyd yn y sylwadau a'r argymhellion uchod, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arolygu parhaus, cynnal a delio gyda materion yn ymwneud â Llwybrau Diogel i'r Ysgol; • Sut mae ysgolion yn ymateb i ddisgyblion yn cerdded i'r ysgol mewn tywydd gwael, fel cyfleusterau addas i sychu dillad neu i newid dillad. <p>Yn ogystal â'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effaith ar ffigyrau NEET, presenoldeb disgyblion, absenoldeb, traffig cerbydau y tu allan i'r ysgol; • Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn parhau i lwyddo i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig ynghlwm â disgyblion ôl-16; • Rhoi ystyriaeth i fynediad a pharcio i'r anabl mewn ysgolion a cholegau er mwyn bod o gymorth i deuluoedd a phobl ifanc wrth iddynt fynd i'r ysgol a dychwelyd adref yn ddiogel, yn enwedig gan y byddai'r cynigion hyn o bosib yn golygu cynnydd mewn lefelau traffig y tu allan i ysgolion; • Sut mae ysgolion yn defnyddio amserlennu i fod o gymorth o bosib i ddisgyblion ôl-16 wrth leihau'r effaith o'r cynigion hyn, er enghraifft lleihau'r angen i ddisgybl orfod mynychu'r ysgol ar gyfer un dosbarth yn unig ar ddiwrnod penodol; • Sut mae ysgolion yn rhannu arferion da o ran eu dull o ymateb i'r cynigion hyn a chefnogi eu disgyblion wrth gael mynediad at addysg yn ddiogel. <p>b) Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor ei bod hi'n hanfodol bod arweinwyr neu benaethiaid ysgolion ynghlwm â'r gwaith o fonitro effaith y newidiadau arfaethedig i HTST, yn ogystal ag unrhyw weithrediadau yn sgil hynny.</p> |
| <p>Dyddiad y Penderfyniad</p> | <p>18 Gorffennaf 2024</p> |

49. Adroddiad Enwebu Rhianta Corfforaethol

| | |
|------------------------|--|
| Penderfyniad | <u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylid enwebu'r Cyngorydd Della Hughes i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 1 fel unigolyn gwahoddedig i gyfarfodydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2024 |

50. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|------------------------|--|
| Penderfyniad | <u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A, nodwyd y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodwyd y byddai adroddiad ar yr FWP, y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2024 |

51. Eitemau Brys

| | |
|------------------------|--------------------|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14:38.